



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru
The National Assembly for Wales**

**Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 3
Legislation Committee No. 3**

**Dydd Iau, 7 Mai 2009
Thursday, 7 May 2009**

Cynnwys
Contents

- 3 Cyflwyniad, Ymddiheuriadau, Dirprwyon a Datgan Buddiannau
Introduction, Apologies, Substitutions and Declarations of Interest
- 4 Y Mesur Arfaethedig ynghylch Addysg (Cymru)—Cam 1
The Proposed Education (Wales) Measure—Stage 1

Cofnodir y trafodion hyn yn yr iaith y llefarwyd hwy ynndi yn y pwyllgor. Yn ogystal,
cynhwysir cyfieithiad Saesneg o gyfraniadau yn y Gymraeg.

These proceedings are reported in the language in which they were spoken in the committee.
In addition, an English translation of Welsh speeches is included.

Aelodau'r pwyllgor yn bresennol
Committee members in attendance

Peter Black	Democratiaid Rhyddfrydol Cymru Welsh Liberal Democrats
Christine Chapman	Llafur Labour
William Graham	Ceidwadwyr Cymreig Welsh Conservatives
Janice Gregory	Llafur Labour
Helen Mary Jones	Plaid Cymru The Party of Wales
David Lloyd	Plaid Cymru (Cadeirydd y Pwyllgor) The Party of Wales (Committee Chair)

Swyddogion Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad yn bresennol
Assembly Parliamentary Service officials in attendance

Fay Bowen	Clerc Clerk
Gwyn Griffiths	Cynghorydd Cyfreithiol Legal Adviser
Ruth Hatton	Dirprwy Glerc Deputy Clerk
Siân Hughes	Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau Members' Research Service

Dechreuodd y cyfarfod am 10.14 a.m.
The meeting began at 10.14 a.m.

Cyflwyniad, Ymddiheuriadau, Dirprwyon a Datgan Buddiannau
Introduction, Apologies, Substitutions and Declarations of Interest

[1] **David Lloyd:** Croeso i gyfarfod Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 3 Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Yr ydym yma i drafod y Mesur Arfaethedig ynghylch Addysg (Cymru), ac yr ydym yng Nghyfnod 1. **David Lloyd:** Welcome to Legislation Committee No. 3 of the National Assembly for Wales. We are here to discuss the Proposed Education (Wales) Measure, and we are at Stage 1.

[2] Yr wyf yn croesawu fy nghyd-Aelodau; nid oes unrhyw ymddiheuriadau, gan fod pawb yn bresennol. Yr wyf hefyd yn croesawu swyddogion ac aelodau'r cyhoedd. Os bydd y larwm tân yn canu, dylai Aelodau adael yr ystafell drwy'r allanfeydd tân penodedig, a dilyn cyfarwyddiadau'r tywyswyr a staff. Nid ydym yn disgwyl prawf y bore yma, felly os bydd larwm yn seinio, bydd yn rhaid ymadael. Dylai pawb ddiffodd eu ffonau symudol, eu galwyr a'u 'mwyar duon', gan eu bod yn amharu ar yr offer darlledu. Yr ydych yn ymwybodol erbyn hyn bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gweithredu'n ddwyieithog, ac i'r I welcome fellow Members; there are no apologies, as everyone is in attendance. I also welcome officials and members of the public. If the fire alarm sounds, Members should leave the room through the specified fire exits, and follow the instructions of the ushers and staff. We do not expect a test this morning, so if an alarm sounds, we will have to evacuate the room. I ask everyone to switch off their mobile phones, pagers and BlackBerrys, because they interfere with the broadcasting equipment. As you will by now be aware, the National Assembly for Wales operates bilingually, and to that end, headsets are available for simultaneous translation and

diben hwnnw, mae clustffonau ar gael fel y gallwch glywed cyfieithiad ar y pryd a gellir hefyd addasu'r sain arnynt ar gyfer pobl sydd yn drwm eu clyw. Peidiwch â chyffwrdd y botymau ar y meicroffonau oherwydd gall hynny amharu ar y system, a sicrhewch fod golau coch yn disgleirio cyn cychwyn siarad. Mae'r cyfieithiad ar y pryd ar sianel 1 a darllediad gair am air i glywed y sain yn well ar sianel 0.

the sound can also be amplified for those who are hard of hearing. Do not touch the microphone buttons, because that can interfere with the system, and please ensure that the red light is on before beginning to speak. The simultaneous translation is available on channel 1 and a verbatim feed to amplify the sound is available on channel 0.

10.15 a.m.

Y Mesur Arfaethedig ynghylch Addysg (Cymru)—Cam 1 The Proposed Education (Wales) Measure—Stage 1

[3] **David Lloyd:** Diben cyfarfod heddiw yw cytuno'n ffurfiol ar ddull gweithredu'r pwyllgor hwn wrth graffu ar y Mesur Arfaethedig ynghylch Addysg (Cymru). Yn gefndir iddo, fel y bydd Aelodau'n ei wybod, cyflwynwyd y Mesur arfaethedig gerbron y Cynulliad gan Jane Hutt, y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, ar 27 Ebrill. Rôl y pwyllgor yw ystyried egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig a chyflwyno adroddiad arnynt. Rhaid i ni gwblhau ein gwaith a chyflwyno ein hadroddiad heb fod yn hwyrach na 7 Gorffennaf 2009, yn unol â'r dyddiad a bennwyd gan y Pwyllgor Busnes. Yr ydym eisoes wedi cynnal rhai trafodaethau anffurfiol y bore yma ynghylch ein dull o graffu ar y Mesur arfaethedig.

David Lloyd: The purpose of today's meeting is to formally agree the committee's approach to the scrutiny of the Proposed Education (Wales) Measure. As Members will be aware, the background is that the proposed Measure was laid before the Assembly by Jane Hutt, the Minister for Children, Education, Lifelong Learning and Skills on 27 April. The role of the committee is to consider and report upon the general principles of the proposed Measure. We must conclude our work and lay our report no later than 7 July 2009, in line with the deadline that has been set by the Business Committee. We have already held some informal discussions this morning on our approach to scrutinising the proposed Measure.

[4] Awgrymaf y fframwaith a ganlyn i'r pwyllgor ystyried y Mesur arfaethedig—ac mae hwn ym mharagraff 9 y papur cyntaf o blith eich papurau. Yn gyntaf, bydd y pwyllgor yn ystyried yr angen am Fesur i gyflawni'r amcanion. Y ddau brif amcan yw rhoi hawl i blant wneud apeliadau anghenion addysgol arbennig a hawliadau am wahaniaethu ar sail anabledd i Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru a diwygio'r gyfraith sy'n rhoi'r hawl i rieni wneud apeliadau a hawliadau i'r tribiwnlys yn unol â Deddf Addysg 1996, fel y'i diwygiwyd, a Deddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd 2001. Yn ogystal, bydd y pwyllgor yn ystyried a yw'r Mesur arfaethedig yn cyflawni'r amcanion a nodwyd. Byddwn yn mynd ar ôl prif ddarpariaethau'r Mesur arfaethedig ac a

I suggest that the committee should consider the proposed Measure using the following framework—and it is in paragraph 9 of the first of your papers. First of all, the committee will consider the need for a Measure to deliver its objectives. The two main objectives are to provide a right for children and young people to make special educational needs appeals and claims of disability discrimination to the Special Educational Needs Tribunal for Wales and to amend the law providing for parents in Wales to make appeals and claims to the tribunal, as set out in the Education Act 1996, as amended, and the Special Educational Needs and Disability Act 2001. In addition, the committee will consider whether the proposed Measure achieves its stated objectives. We will also discuss the key

ydynt yn addas ar gyfer cyflawni ei amcanion, yn ogystal â mynd ar ôl rhwystrau posibl rhag gweithredu'r prif ddarpariaethau hynny ac a yw'r Mesur arfaethedig yn rhoi sylw iddynt a barn y rhanddeiliaid a fydd yn gorfod gweithio gyda'r trefniadau newydd.

provisions set out in the proposed Measure and whether they are appropriate to the delivery of its objectives, as well as potential barriers to the implementation of those key provisions and whether the proposed Measure takes account of them and the views of the stakeholders who will have to work with the new arrangements.

[5] A yw fy nghyd-Aelodau'n fodlon ar y dull gweithredu hwn? Gwelaf fod pawb yn cytuno. Diolch yn fawr.

Are my fellow Members content with that approach? I see that everyone agrees. Thank you very much.

[6] Ymhellach i hynny, a yw'r pwyllgor yn fodlon inni gyhoeddi galwad gyffredinol am dystiolaeth? A yw'n fodlon inni wahodd cyflwyniadau ysgrifenedig gan unigolion a sefydliadau? Yn drydydd, a yw'r pwyllgor hefyd yn fodlon inni wahodd y prif rhanddeiliaid i roi dystiolaeth lafar dros yr wythnosau nesaf? Gwelaf fod pawb yn fodlon. Diolch yn fawr.

Further to that, is the committee content to issue a general call for evidence? Is it content to invite written submissions from individuals and organisations? Thirdly, is the committee also content to invite key stakeholders to give oral evidence over the coming weeks? I see that everyone agrees. Thank you very much.

[7] I ddwyn y cyfarfod ffurfiol i ben, cyhoeddaf y bydd cyfarfod nesaf y pwyllgor hwn ar ddydd Iau, 14 Mai, pan gynhelir y sesiwn dystiolaeth lafar gyntaf a bydd y Gweinidog yn bresennol er mwyn i ni ei holi. Diolch i bawb am eu parodrwydd i fod yma y bore yma. Diolch hefyd i'r cyfieithwyr.

To bring the formal meeting to a close, I announce that the next meeting of this committee will take place on Thursday, 14 May, when the first oral evidence session will be conducted and we will question the Minister. I thank everyone for their willingness to attend this morning and I also thank the interpreters.

*Daeth y cyfarfod i ben am 10.19 a.m.
The meeting ended at 10.19 a.m.*